**Rhan 3 – Cyfrifoldeb am Swyddogaethau**

## Y PWYLLGOR ARCHWILIO: CYLCH GORCHWYL

### 1. Aelodaeth

Bydd y Panel Gweithredol yn cynnwys yr 14  aelod sydd ddim ar y Panel Gweithredol.

Bydd y Pwyllgor Archwilio yn gyfrifol am y canlynol (a bydd ganddo awdurdod dirprwyedig amdanynt):

1. **Llywodraethu**

(a) Pwrpas ein pwyllgor archwilio yw darparu sicrwydd annibynnol i'r aelodau fod y fframwaith rheoli risg a'r amgylchedd rheolaeth fewnol yn ddigonol. Mae'n darparu adolygiad annibynnol o fframweithiau Awdurdod Tân ac Achub Gogledd Cymru ar gyfer llywodraethu, rheoli risg a rheolaeth, ac mae'n goruchwylio'r prosesau adroddiadau ariannol a llywodraethu blynyddol. Mae'n goruchwylio'r gwaith archwilio mewnol ac allanol, gan helpu i sicrhau bod trefniadau effeithlon ac effeithiol ar gael ar gyfer sicrwydd.

(b) Gorchwylio'r gwaith o lunio Datganiad Llywodraethu Blynyddol Awdurdod Tân ac Achub Gogledd Cymru, ac ystyried a yw'n llwyddo i adlewyrchu'r amgylchedd llywodraethu, risg a rheolaeth a'r sicrwydd ategol, a chanfod unrhyw gamau angenrheidiol ar gyfer gwella.

(c) Cynnal trosolwg o gyfansoddiad Awdurdod Tân ac Achub Gogledd Cymru, yn enwedig o ran rheolau gweithdrefnau contractau a rheolau gweithdrefnau ariannol.

(ch) Adolygu unrhyw fater y mae'r Prif Swyddog Tân, y Swyddog Adran 151 neu Glerc, Awdurdod Tân ac Achub Gogledd Cymru neu'r Panel Gweithredol yn ei gyfeirio ato.

2. **Sicrwydd a Rheolaeth Gyffredinol, Rheolaeth Ariannol a Rheolaeth ar Adnoddau**

Bydd y Pwyllgor yn gwneud y canlynol:

(a) ystyried fframwaith sicrwydd yr Awdurdod a sicrhau ei fod yn mynd i'r afael yn ddigonol â risgiau a blaenoriaethau'r Awdurdod

(b) ystyried trefniadau'r Awdurdod i sicrhau gwerth am arian, ac adolygu sicrwydd ac asesiadau o ba mor effeithiol yw'r trefniadau hynny

(c) Cymeradwyo Rhaglen Waith Flynyddol y swyddogaeth Archwilio Mewnol;

(ch) Ystyried yr adroddiadau Archwilio Mewnol;

(d) Ystyried yr Adroddiad Blynyddol Archwilio Mewnol;

(dd) Penodi Gwasanaeth Archwilio Mewnol sy'n effeithiol ac effeithlon; a

(e) Adolygu perfformiad y Gwasanaeth Archwilio Mewnol;

(f) Ystyried Llythyr Rheolaeth Blynyddol Swyddfa Archwilio Cymru;

(ff)  Adolygu'r datganiad blynyddol o gyfrifon. Yn benodol, ystyried a ddilynwyd polisïau cyfrifyddu priodol ac a oes angen tynnu sylw Awdurdod Tân ac Achub Gogledd Cymru at bryderon yn deillio o'r datganiadau ariannol neu o'r archwiliad;

3. **Panel Rheoli Risg**

Bydd y Pwyllgor yn gwneud y canlynol:

(a) Ystyried y fframwaith sicrwydd ac yn sicrhau ei fod yn mynd i'r afael yn ddigonol â risgiau a blaenoriaethau Awdurdod Tân ac Achub Gogledd Cymru;

(b) Monitro pa mor effeithiol yw'r gwaith o ddatblygu a gweithredu rheolaeth risg gorfforaethol a llywodraethiant corfforaethol yn Awdurdod Tân ac Achub Gogledd Cymru;

(c) Monitro pa mor effeithiol yw'r amgylchedd rheolaeth fewnol.

4. **Perfformiad**

Bydd y Pwyllgor yn gwneud y canlynol:

(a) Adolygu pa mor effeithiol yw'r gwaith rheoli perfformiad;

(b) Adolygu sut mae amcanion y Cynllun Strategol yn cael eu cyflawni;

(c) Adolygu sut mae dangosyddion perfformiad y cytunwyd arnynt yn cael eu cyflawni; ac

(ch) Rhoi sylwadau cyffredinol a gwneud argymhellion i Banel Gweithredol Awdurdod Tân ac Achub Gogledd Cymru neu'r Grŵp Gweithredol am berfformiad Awdurdod Tân ac Achub Gogledd Cymru .

5. **Trosolwg a Chraffu**

Caiff y Pwyllgor:

(a) Adolygu pa mor effeithiol yw'r polisïau a'r strategaethau a gymeradwywyd gan y Panel Gweithredol;

(b) Adolygu pa mor effeithiol yw'r penderfyniadau a wnaed gan y Panel Gweithredol;

(c) Adolygu'n gyffredinol berfformiad Gwasanaeth Tân ac Achub Gogledd Cymru;

(ch) Gwneud adroddiadau neu argymhellion i Awdurdod Tân ac Achub Gogledd Cymru, y Panel Gweithredol neu'r Grŵp Gweithredol y mae'n eu hystyried yn briodol;

(d) Gofyn i'r Clerc a gaiff mater gael ei ychwanegu at unrhyw agenda ar gyfer Awdurdod Tân ac Achub Gogledd Cymru, y Panel Gweithredol neu'r Grŵp Gweithredol ar yr amod fod o leiaf 10 diwrnod clir o rybudd yn cael ei roi o gais o'r fath. Rhaid cymryd pob cam rhesymol i ddarparu adroddiad ysgrifenedig o'r mater i'r cyfarfod, ond pan nad yw hyn yn bosibl, rhoddir adroddiad ar lafar;

(dd) Bydd yr hawl i wneud cais dan baragraff (ch) yn cael ei roi i Gadeirydd y Pwyllgor Archwilio neu unrhyw dri Aelod o'r Pwyllgor hwnnw;

(e) pan fo'r Pwyllgor Archwilio yn ystyried bod angen ystyried mater ar frys, naill ai gan Awdurdod Tân ac Achub Gogledd Cymru neu'r Panel Gweithredol, bydd gan y Pwyllgor Archwilio rym i ofyn am gyfarfod o'r Pwyllgor hwnnw yn unol â rheol (ch) uchod.

6. **Archwilio**

Bydd y Pwyllgor hwn yn rhoi cyngor ac argymhellion am y meysydd canlynol:

(a) Adolygu'r cynllun archwilio mewnol ac unrhyw newidiadau arfaethedig i'r cynllun archwilio mewnol.

(b) Ystyried adroddiad blynyddol a barn y pennaeth archwilio mewnol, a chrynodeb rheolaidd o hynt y gweithgareddau archwilio mewnol o'u cymharu â'r cynllun archwilio, a lefel y sicrwydd y gall ei roi am y trefniadau llywodraethu corfforaethol.

(c) Ystyried adroddiad ar ba mor effeithiol yw'r gwaith archwilio mewnol i gefnogi'r Datganiad Llywodraethu Blynyddol, pan fo hynny'n ofynnol dan Reoliadau Cyfrifon ac Archwilio Blynyddol (Cymru) 2014

(ch) Cefnogi annibyniaeth y gwaith archwilio mewnol drwy ystyried asesiad blynyddol yr archwilydd mewnol o'i annibyniaeth ac adolygu unrhyw faterion sy'n cael eu codi gan naill ai'r PSAA neu'r panel archwilwyr, fel y bo'n briodol.

(d) Ystyried llythyr rheolaeth flynyddol yr archwilydd allanol, adroddiadau perthnasol a'r adroddiadau i'r rhai sy'n gyfrifol am lywodraethu.

(dd) Ystyried adroddiadau penodol fel y cytunir gyda'r archwilydd allanol.

(e) Darparu adborth i Swyddfa Archwilio Cymru am berfformiad y swyddogaeth archwilio mewnol.